

Y Mesur Cydraddoldeb

Adroddiad ar ganlyniadau'r ymarfer gwranddo

Ym mis Chwefror 2005, sefydlodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Adolygiad o'r Cyfreithiau Cydraddoldeb i edrych ar anghysonderau yn fframwaith y cyfreithiau cydraddoldeb ac i ystyried beth fyddai'r ffordd orau o gael deddfwriaeth cydraddoldeb eglurach a symlach sy'n arwain at well canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais.

Cyhoeddwyd *A Framework for Fairness: Proposals for a Single Equality Bill for Great Britain* ym mis Mehefin 2007. Yn dynn wrth ei sodlau daeth *A Framework for a Fairer Future – the Equality Bill a Equality Bill – Government Response to the Consultation*. Cyhoeddwyd y ddau gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth.

Wedi hyn, cyhoeddwyd y Mesur Cydraddoldeb yn araith y Frenhines ar 3 Rhagfyr 2008. Cyflwynwyd y Mesur i Senedd y DU ar 24 Ebrill. Mae'r Mesur Cydraddoldeb bellach yn Nhŷ'r Arglwyddi ar ôl mynd drwy Dŷ'r Cyffredin yn llwyddiannus ac, yn amodol ar ewyllys Senedd y DU, dylai gael Cydsyniad Brenhinol yn nechrau 2010.

Effaith y ddeddf newydd

Bydd y cynigion yn y Mesur yn disodli'r 116 darn gwahanol o ddeddfwriaeth cydraddoldeb sydd mewn grym yn 2009. Mae hyn yn cynnwys 35 Deddf Seneddol, 52 Offeryn Statudol, 13 Cod Ymarfer a 16 Cyfarwydddeb y Comisiwn Ewropeaidd.

Y nod yw y bydd y ddeddf gydraddoldeb newydd yn cysoni ac yn cryfhau deddfwriaeth gwahaniaethu'r DU. Pan fydd yn dod i rym, bydd yn sefydlu'r nodweddion gwarchoddedig sef oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd hefyd yn rhoi diffiniadau o wahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu sy'n codi o anabledd, gwahaniaethu anuniongyrchol, aflonyddu ac erledigaeth.

Dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol newydd i'r sector cyhoeddus

Bydd Cymal 145 o'r Mesur Cydraddoldeb yn cyflwyno dyletswydd cydraddoldeb newydd ar y sector cyhoeddus. Wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau, rhaid i awdurdod cyhoeddus rhestredig roi sylw dyledus i'r angen am:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r personau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu, yn golygu rhoi sylw dyledus yn benodol i'r angen am:

- Ddileu neu leihau i'r eithaf yr anfanteision gan berson sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Ateb anghenion person sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion personau nad ydynt yn ei rhannu;
- Annog personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i gyfranogi mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae nifer anghymesur o isel o bobl o'r fath yn cyfranogi.

Mae rhoi sylw dyledus i'r angen am feithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu'n golygu rhoi sylw dyledus, yn arbennig, i'r angen am fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae hi'n bosib y bydd cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn yn golygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill; ond ni ddylid cymryd hynny fel caniatáu ymddygiad a fyddai fel arall yn cael ei wahardd gan y Mesur neu'n dod oddi tano os daw'n ddeddf.

Y nodweddion gwarchoddedig perthnasol y mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus cyffredinol yn berthnasol iddynt yw:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd a chred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Dyletswyddau sector cyhoeddus penodol i Gymru

Bydd y Mesur Cydraddoldeb, pan ddaw'n ddeddf, yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu a gosod dyletswyddau penodol sy'n cefnogi'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol newydd hon. Mae hi'n bwysig, fodd bynnag, fod unrhyw ddyletswyddau cydraddoldeb penodol newydd yn ychwanegu gwerth at yr amcanion polisi rydym eisieu eu cyflawni. Dyna pam yr ymgwymerwyd ag ymarfer gwranddo. Mae angen mewnbwn ein partneriaid i sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau penodol a ddatblygir yng Nghymru wedi'u canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir, yn rhoi gwell canlyniadau i bobl ac yn arwain at well profiad i ddinasyddion pan fyddant yn cael mynediad at y gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

Ymarfer gwranddo – nodi ein syniadau

Er mwyn helpu pobl i ystyried sut gallai'r dyletswyddau newydd hyn weithio, nodwyd rhai syniadau cychwynnol yn *Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru* am y ffurf ddylai fod ar y dyletswyddau penodol hyn i'w datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y ddogfen hon, dywedasom y dylai'r dyletswyddau penodol fod:

- **Yn hyblyg** – fel mai camau sy’n angenrheidiol ac yn gynhyrchiol yn unig y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu cymryd; ac
- **Yn gymesur** – yn dibynnu ar swyddogaeth a maint yr awdurdod cyhoeddus. Er enghraifft, byddai’r disgwyliadau sydd ar ysgol gynradd fechan yn wahanol i gyngor lleol mawr a byddent yn adlewyrchu eu maint a’u hadnoddau.

Dylai pedair egwyddor lywio datblygu’r dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Y rhain yw:

Defnyddio tystiolaeth: tystiolaeth gadarn dda i ddeall y cymunedau sy’n cael eu gwasanaethu a llunio camau gweithredu’r dyfodol;

Ymgynghori a chynnwys: fel y gall anghenion y dinesydd helpu i lunio dyluniad a chyflenwi gwasanaethau sy’n addas i’r diben, yn ateb anghenion ac yn rhoi canlyniad cadarnhaol;

Tryloywder: ynglŷn â sut mae amcanion wedi’u gosod ac mae adrodd ar gynnydd yn digwydd yn erbyn amcanion a meysydd cydraddoldeb â blaenoriaeth; ac

Arweiniad: arweiniad cryf sy’n sefydlu diwylliant a hinsawdd gadarnhaol yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio adnoddau’n effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i gefnogi awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt gyflenwi gwasanaethau gwell i ddinasyddion Cymru.

Wrth ystyried fframio a chwmpas unrhyw ddyletswyddau cydraddoldeb penodol y dylid eu datblygu yng Nghymru, awgrymwyd rhai meysydd gweithgaredd allweddol lle mae potensial i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle yng Nghymru yn well:

- Gosod amcanion cydraddoldeb
- Ymgynghori a Chynnwys
- Asesu effaith
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion
- Cyflog y rhywiau a gwahanu yn y gweithle
- Caffael yn y Sector Cyhoeddus
- Sut mae arolygiadau’n cefnogi’r agenda cydraddoldeb; ac
- Adrodd gan Weinidogion Cymru.

Gweithgarwch yn ystod yr ymarfer

Cyhoeddwyd yr ymarfer gwrando’n ffurfiol gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar 27 Gorffennaf mewn cyfarfod o Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb Cymru. I ddechrau, anfonwyd y ddogfen yn electronig i bron i 140 o grwpiau a rhwydweithiau cydraddoldeb ledled Cymru, wedyn anfonwyd fersiynau printiedig o’r ddogfen i dros 200 grŵp a rhwydwaith. Ymhlith eraill, cysylltwyd â chyrrff oedd yn cynnwys y nodweddion canlynol:

Hil	22
Anabledd	53

Rhywedd	21
Oedran	18
Ffydd	26
Cyfeiriadedd Rhywiol	4
Trawsrywedd	2
Tai	35
Bydwreigiaeth	15
Bwydo ar y Fron	5

Yn ystod yr ymarfer gwrando, mynychodd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfres o weithdai, fforymau a digwyddiadau eraill wedi'u trefnu i godi ymwybyddiaeth a thrafod y datblygiad a'r cyfleoedd a allai godi o'r dyletswyddau newydd hyn. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys:

- Cyfres o dri fforwm penodol wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael barn uwch-gynrychiolwyr ac ymarferwyr cydraddoldeb wedi'u tynnu o'r sectorau cyhoeddus, academiaidd a'r Trydydd Sector;
- Cyfres o grwpiau trafod wedi'u trefnu gan Women Making a Difference i gael syniadau menywod sy'n gweithio ac yn byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.
- Digwyddiad wedi'i noddi gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth yng Nghaerdydd ar 1 Medi a fynychwyd gan fwy na 80 ymarferydd cydraddoldeb i drafod y dyletswyddau newydd yn ogystal ag elfennau gwahaniaethu ar sail oedran y Mesur;
- Cyfres o gyfarfodydd rhwydwaith a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan gynnwys cyfarfod o gynghorwyr wedi'u hethol sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Llywodraeth Leol a chydbwyllgor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Digwyddiad Hawl i Reoli gan Anabledd Cymru yn Wrecsam a fynychwyd gan dros 50 cynrychiolydd grwpiau a chyrrff anabledd;
- Fforwm Cydraddoldeb Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru;
- Digwyddiadau Anabledd Dysgu Cymru yng Nghaerdydd a Llandudno;
- Rhoddwyd gwybodaeth yn ystod y digwyddiadau ymgynghori i gymunedau Sipsiwn-Teithwyr;
- Cyfres o grwpiau trafod wedi'u trefnu gan AWEMA.

Yn ogystal, cynullodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru gyfres o drafodaethau cydraddoldeb ym mis Tachwedd am y Mesur Cydraddoldeb a'r dyletswyddau a fydd yn dilyn. Derbyniodd cyrrff cydraddoldeb arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i gael barn cyrrff sy'n cynrychioli grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau o'r gwaith hwn yn helpu i lywio datblygiad y dyletswyddau yng Nghymru.

Ymatebion i'r ymarfer gwrando

Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru dros 60 o ymatebion a chyfraniadau gan ystod o gyrff ac unigolion yn ystod yr ymarfer gwrando. Daeth 34 y cant o'r ymatebion o'r sector cyhoeddus, iechyd a llywodraeth leol yn bennaf, a daeth 23 y cant gan gyrff yn y Trydydd Sector. Derbyniwyd cyfraniadau gan gyrff sy'n cynrychioli'r nodweddion gwarchoddedig.

Y farn gyffredinol oedd bod yr egwyddorion a nodwyd yn *Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru* ynglŷn â dyletswyddau'n briodol ac y dylid eu cymhwyso'n gymesur â maint a swyddogaeth yr awdurdod cyhoeddus.

Felly hefyd, y farn gyffredinol oedd y dylai'r dyletswyddau ganiatáu peth hyblygrwydd i awdurdodau lleol bennu blaenoriaethau lleol cyhyd â'u bod nhw'n cyfrannu i amcanion cenedlaethol. Mynegodd rhai ymatebwyr, er eu bod yn derbyn bod angen peth hyblygrwydd, beth pryder fod perygl na fyddai'r awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni petai gormod o hyblygrwydd yn cael ei ganiatáu.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i osod amcanion cydraddoldeb er y dylai'r amcanion hynny gael eu cyhoeddi mewn cynllun cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â chynllun corfforaethol y corff. Awgrymwyd y dylid cytuno ar amcanion dros gyfnod hwy o amser – 10 i 15 mlynedd efallai ond eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n gyson.

O ran ymgynghori a chynnwys, barn y mwyafrif llethol yw y dylai'r agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys o fewn rheoliadau anabledd cyfredol gael ei hestyn i'r nodweddion gwarchodedig eraill. Mae pwysigrwydd ymgysylltu effeithiol wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaethau wedi cael ei ddatgan o'r newydd.

Un ymatebydd yn unig a awgrymodd y dylid peidio parhau i wneud Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod y broses systematig hon, er y gellir ei symleiddio, wedi bod yn ddull cadarnhaol i'r rhan fwyaf o gyrff ac y dylai unrhyw ddyletswydd barhau i'w gwneud hi'n ofynnol bod asesiadau'n cael eu gwneud a'u cyhoeddi.

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr wedi nodi y dylai bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus gasglu data am bobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig fel y caiff amcanion ystyrion eu datblygu. Hefyd cydnabuwyd bod casglu'r data yn llywio'r dystiolaeth gynyddol am gydraddoldeb ac yn cyfrannu iddi.

Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu lle caiff data eu casglu, nad yw'n dilyn y dylid eu cyhoeddi. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd awdurdodau cyhoeddus llai yn casglu data'n ymwneud â'u gweithlu, ond na fydd gofyn iddyn nhw eu cyhoeddi er mwyn gwarchod natur anhysbys eu staff. Mae'n bosib na fyddai eithriad o'r fath yn cael ei estyn i bob un o'r nodweddion.

Nid oes cytundeb am faint y cyrff y dylid gosod y gofynion hyn arnynt. Awgrymodd rhai ymatebwyr drothwy priodol o 100 gweithiwr; cytunodd un arall y byddai 150 yn briodol. Mae rhai wedi awgrymu y dylai pob awdurdod cyhoeddus, beth bynnag yw ei faint, orfod dilyn y dyletswyddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys adrodd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, cydnabuwyd na fydd adrodd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ei hunan yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb cyflog sy'n parhau ac y dylai unrhyw ddyletswydd ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus weithredu ar unrhyw ffactorau a all gyfrannu i fwllch cyflog rhwng y rhywiau.

Gofynnodd rhai ymatebwyr pam roedd anghydraddoldeb cyflog wedi'i gyfyngu i ryw yn unig pan fo tystiolaeth fod anghydraddoldeb cyflog yn parhau yn achos nodweddion gwarchoddedig eraill fel hil ac anabledd.

O'r ymatebwyr a wnaeth sylw am gaffael cyhoeddus (tua 50%), mae pob un wedi cefnogi'r angen am gynnwys caffael yn y dyletswyddau penodol. Mae caffael cyhoeddus yn cael ei ystyried yn ddull gwerthfawr sydd ar gael i awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a bydd dyletswydd sector cyhoeddus benodol yn y maes hwn yn cyd-fynd â'r gwaith a ddechreuwyd gan Gwerth Cymru. Er mwyn cydnabod yr effaith y gallai dyletswydd o'r fath ei chael ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, awgrymwyd y dylai unrhyw ddyletswydd fod yn berthnasol i gontractau uwch eu gwerth neu gyrff mwy yn unig.

Felly hefyd, mae ymatebwyr wedi nodi y dylai arolygiaethau chwarae rhan fwy arwyddocaol wrth hyrwyddo cydraddoldeb. Gan gydnabod y bydd y dyletswyddau'n berthnasol iddynt yn y gwaith a wnânt fel awdurdodau cyhoeddus. Mae'r awgrymiadau'n amrywio o'i gwneud hi'n ofynnol i rannu gwybodaeth, i gynnwys canlyniadau cydraddoldeb mewn fframweithiau archwiliadau, fframweithiau perfformiad cydraddoldeb y cytunwyd arnynt ac un awgrym y dylai'r Arolygiaethau ymgymryd ag arolygiadau ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Yn olaf, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ystyried y byddai hi'n well cael adroddiadau blynyddol gan Weinidogion Cymru ac y dylai'r adroddiadau ganolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd i wella tryloywder.

Dyma rai sylwadau ac awgrymiadau eraill a all fod yn werth eu hystyried ymhellach:

- Caniatáu i awdurdodau cyhoeddus adrodd ar bob llinyn bob tair blynedd, ond adrodd yn flynyddol ar ddau linyn, dyweder, er mwyn i awdurdodau cyhoeddus gael canolbwyntio ar y materion hynny'n hytrach na phob mater cydraddoldeb;
- Gofyniad bod awdurdodau cyhoeddus yn sefydlu grwpiau cynghori ar gydraddoldeb wedi'u tynnu o'u staff er mwyn datblygu eu prosesau mewnol a phaneli cydraddoldeb wedi'u tynnu o aelodau'r cyhoedd i lywio datblygiad polisi a chyflenwi gwasanaethau;
- Gofyniad bod awdurdodau cyhoeddus yn cyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb mewn cyfnodolion cymunedol a phapurau'r cyngor – defnyddio cyfleusterau cymunedol cyhoeddus i wella mynediad;
- Dyletswydd benodol i gynnwys gofyniad i sicrhau bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant i fagu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am faterion cydraddoldeb y mae pobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchoddedig sy'n cael eu cyflwyno yn y Mesur yn dod ar eu traws;
- Gofyniad bod awdurdodau lleol yn cynnwys cydraddoldeb mewn trefnau arfarnu staff.

Un thema gref sy'n codi fu diffyg tystiolaeth cydraddoldeb sy'n gredadwy, dibynadwy a lleol i fod yn gymorth wrth osod amcanion, asesu effaith ac adrodd. Mae rhai wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain ar hyn.

Ceir rhestr o'r cyrff a ymatebodd i'r ymarfer gwrando yn atodiad A.

Y camau nesaf

Diben yr ymarfer gwrando oedd cael barn ein partneriaid ynglŷn â sut byddai orau i'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol newydd hyn gael eu fframio yng Nghymru ac ystyried eu barn yn llawn. Er i rai syniadau gael eu nodi i ddechrau ynglŷn â ffurf bosib y dyletswyddau hyn, gwnaed ymdrech i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i ystyried unrhyw awgrymiadau am sut gellid cael y dyletswyddau hyn i weithio'n fwy effeithiol dros bobl Cymru.

Yn y cyd-destun hwn y mae'r sylwadau a wnaed i ni yn ystod yr ymarfer hwn yn cael eu hystyried. Ar y sail hon y caiff ein cynigion polisi eu datblygu a'u cyhoeddi gogyfer ag ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd gwanwyn 2010. Bydd y cynigion polisi hyn yn nodi'n fanwl beth fydd ffurf dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus, ac ar ba awdurdodau lleol y gosodir y dyletswyddau hyn.

Yn amodol ar yr ymgynghoriad, caiff y rheoliadau eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn amodol ar ei farn byddant yn dod i rym yn ystod gwanwyn/haf 2011.

Atodiad A.

Cyrff a ymatebodd i'r ymarfer gwranddo
A:gender
Awdurdod Heddlu De Cymru
AWEMA
Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Uned Reoli Sylfaenol
Canolfan GIG Cymru dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol
Clymblaid Cenedlaethol Menywod Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Cynghrair Bwyd Cymru
Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Gwynedd
Cyngor i Bobl Fyddar Cymru
Cyngor Sir Penfro
Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Hen Bensiynwyr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymorth i Ferched Cymru
Cynulliad Merched Cymru
Fforwm Gweithlu'r Sector Cyhoeddus
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru
Heddlu Dyfed Powys
Mind Cymru
Ochr yr Undebau Llafur Llywodraeth Cynulliad Cymru
PCS - Cyllid a Thollau
Plant yng Nghymru
Prifysgol Caerdydd
RNID Cymru
Rhwydwaith Bwydo ar y Fron
Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Cymru
Stonewall Cymru
TUC Cymru
Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
Uned Herio Cydraddoldeb

Cyrff a ymatebodd i'r ymarfer gwranddo
Well Being Regeneration Ltd
Women Connect First
Women Making a Difference
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant
Ymddiriedolaeth GIG/Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf